# Peiriannau Sychu Dillad

- Fe ddylech chi bob amser ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio a gofalu am y cyfarpar.
- Peidiwch â gorlwytho socedi – mae gan beiriant sychu dillad wattedd uchel sydd yn golygu ei fod angen ei soced 13 amp ei hun. Cadwch lygaid am farciau llosg ac archwiliwch unrhyw wifrau gweladwy.
- Cadwch lygaid ar eich peiriant – peidiwch â rhoi'ch peiriant sychu dillad ymlaen cyn i chi adael y tŷ neu fynd i'r gwely. Mae peirannau sychu dillad yn cynnwys motorau pwerus a darnau sydd yn symud yn gyflym felly maent yn gallu mynd yn boeth iawn.
- Gwnewch yn siŵr bod digon o aer o gwmpas eich peiriant sychu dillad ac nad ydi'r beipen awyru wedi plygu, ei blocio neu ei gwasgu mewn unrhyw ffordd.
- Disgwyliwch nes y bydd y gylched sychu, gan gynnwys y 'gylched oeri', wedi gorffen yn llawn cyn gwagio'r peiriant. Os agorwch chi'r peiriant cyn i'r gylched orffen bydd y dillad yn dal i fod yn boeth.
- Peidiwch ag anwybyddu'r rhybuddion – os gallwch arogli rhywbeth yn llosgi neu os ydi'ch dillad yn teimlo'n boethach ar ddiwedd y gylched, rhowch y gorau i ddefnyddio'ch peiriant a threfnwch i rywun cymwys ddod i'w archwilio.

Gwasanaeth Tân ac Achub / Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru / Mid and West Wales Fire and Rescue Service

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru / South Wales Fire and Rescue Service

www.decymru-tan.gov.uk / www.southwales-fire.gov.uk
www.tancgc.gov.uk / www.mawwfire.gov.uk
www.gwastan-gogcymru.org.uk / www.nwales-fireservice.org.uk

# CANLLAW NWYDDAU GWYN


# WHITE GOODS GUIDE

# Beth ydi Nwyddau Gwyn?

Mae nwyddau gwyn yn cyfeirio at gyfarpar trydanol y gallwch chi eu defnyddio yn y cartref megis peiriannau sychu dillad, peiriannau golchi llestri neu rhewgelloedd/ oergelloedd. Fe all nwyddau gwyn achosi tanau os nad ydych yn cymryd pwyll neu'n dilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr wrth eu defnyddio.

# What are White Goods?

White goods refer to the electrical appliances you might use within your home. This could be your tumble dryer, washing machine, dishwasher or fridge/freezer. Fires can occur if white goods are used without care or without following the manufacturer's instructions.



# Peiriannau Golchi Dillad a Pheiriannau Golchi Llestri

Dylech bob amser ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr ar sut i ddefnyddio a gofalu am y cyfarpar.

Peidiwch â gorlwytho socedi – oherwydd bod gan beiriannau golchi dillad a pheiriannau golchi llestri wattedd uchel maent angen eu soced 13 amp eu hunain.

Peidiwch â gadael peiriannau golchi dillad neu beiriannau golchi llestri ymlaen dros nos neu pan fyddwch allan o'r tŷ.

# Washing Machines and Dishwashers

Always follow the manufacturer's instructions on the use and maintenance of the appliance.

Don't overload plug sockets – the high wattage for washing machines and dishwashers mean that they need their own 13-amp socket.

Don't leave the washing machine or dishwasher running overnight or while you are out.

# Tumble Dryers


- Always follow the manufacturer's instructions on the use and maintenance of the appliance.
- Don't overload plug sockets – the high wattage for a tumble dryer means that it needs its own 13-amp socket. Keep an eye out for any scorching or burn marks, including checking any visible electrical wires.
- Don't leave appliances unattended – don't turn the tumble dryer on before you leave the house or go to bed. Tumble dryers contain powerful motors with fast moving parts that can get very hot.
- Keep your dryer well ventilated, make sure the vent pipe is kink free and not blocked or crushed in any way.
- Always allow each drying programme, including the 'cool down cycle', to complete fully before emptying the machine. If you stop the machine mid cycle the clothing will still be hot.
- Don't ignore warning signs - if you can smell burning or clothes feel hotter at the end of cycle, stop using your appliance and have it checked out by a competent person.



**158**

Ar gyfartaledd, roedd **158** o ddigwyddiadau yn ymwneud â **nwyddau gwyn** yng Nghymru bob blwyddyn yn ystod y 3 blynedd diwethaf.


There have been on average **158** incidents involving **white goods** each year over the past three years in Wales.



**57%**

**Roedd peiriannau** sychu dillad yn gyfrifol am **57%** o'r holl danau yn ymwneud â **nwyddau gwyn** yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf.

**Tumble dryers** accounted for **57%** of all fires involving **white goods** over the past 3 years.



Roedd tanau yn ymwneud â **lidiau a chyfarpar diffygiol** yn gyfrifol am **66%** o ddigwyddiadau yn ymwneud â **nwyddau gwyn** yng Nghymru yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf.

**66%**

Fires due to **faulty leads or appliances** accounted for **66%** of incidents involving **white goods** in the past three years.

**4.2%**



Mae tanau o ganlyniad i **gamddefnyddio offer neu chyfarpar** yn gyfrifol am **4.2%** o'r holl ddigwyddiadau yn ymwneud â nwyddau gwyn dros y 3 blynedd diwethaf.

Fires due to the **misuse of equipment or appliances** has accounted for **4.2%** of all incidents involving white goods over the past 3 years.

# Sut alla i wneud yn siŵr fy mod i'n defnyddio fy Nwyddau Gwyn yn ddiogel?

Fe ddylai cyfarwyddiadau gan y gwneuthurwr ddod gyda nwyddau gwyn sy'n dangos sut i'w defnyddio a gofalu amdanyn nhw'n gywir. Gwnewch yn siŵr eich bod yn darllen y cyfarwyddiadau yma yn drylwyr ac yn cadw atynt wrth ddefnyddio'ch cyfarpar.

Gwnewch yn siŵr eich bod yn cofrestru'ch cyfarpar newydd gyda'r gwneuthurwr fel y gallan nhw gysylltu gyda chi i rannu gwybodaeth diogelwch os bydd angen.

# How can I ensure I use my White Goods safely?

All white goods should be accompanied by the manufacturer's instructions on how to use and maintain properly. Make sure you read instructions thoroughly and only use your appliance as directed.

Always ensure you register your new appliance with the manufacturer so you can be contacted with safety information should this be needed.


# Oergelloedd/Rhewgelloedd

Gwnewch yn siŵr eich bod yn gosod eich rhewgell/ oergell ymhell o ddefnyddiau hylosg.

Peidiwch â rhoi'ch oergell/rhewgell wth ymyl popty, gwresogydd neu ger olau haul uniongyrchol gan bod hyn yn ei gwneud hi'n anoddach i'r cyfarpar gadw'n oer.

Peidiwch byth â blocio'r system awyru ar y cyfarpar a dilynwch gyfarwyddiadau'r gwneuthurwr.

# Fridge/Freezers



Always ensure that you place your fridge/ freezer away from flammable materials.

Don't place a fridge/freezer next to a cooker, radiator or direct sunlight as it makes the appliance work harder to stay cold.

Never block the ventilation on the appliance and follow the manufacturer's instructions.

## Pam ddylwn i gofrestru fy nghyfarpar? Sut ydw i'n gwneud hynny?

Trwy gofrestru'ch cyfarpar fe all y gwneuthurwr gysylltu gyda chi, perchennog y cyfarpar, os daw unrhyw ddiffygion i'r amlwg neu os caiff y cyfarpar ei alw'n ôl. Bydd hyn yn golygu eich bod chi, perchennog y cyfarpar, yn cael yr wybodaeth ddiogelwch ddiweddaraf os bydd angen. Fe ddylech chi gael dogfen gofrestru gyda'ch cyfarpar ond gallwch hefyd gofrestru'ch cyfarpar drwy fynd i wefan 'cofrestru fy nghyfarpar'.

**www.registermyappliance.org.uk**

Register my appliance




## Why should I register my appliance? How do I do this?

Registering an appliance will enable the manufacturer to contact appliance owners if any faults become apparent or if any recall notices are issued. This will mean that appliance owners are kept up to date with any safety concerns. You should receive a registration document with your appliance but you can also register existing appliances using the 'register my appliance' website.

**www.registermyappliance.org.uk**

## Galw eitem yn ôl

Ymhle ga' i wybod os ydi eitem wedi cael ei alw'n ôl – a beth mae hyn yn ei olygu?

Mae Electrical Safety First yn darparu gwybodaeth am beiriannau sydd wedi cael eu galw'n ôl. Bydd gwneuthurwyr yn cyhoeddi rhybuddion galw'n ôl pan fydd eitem angen cael ei alw yn ôl neu ei drwsio oherwydd nam.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma.
**www.electricalsafetyfirst.org.uk**

Electrical Safety First
The UK's electrical safety experts

## Product recall

Where can I find out if a product has been recalled - and what does this mean exactly?

Electrical Safety First provides information on recalled appliances. Recall notifications are made by manufacturers where a defect has been identified to an appliance and they wish to recall or repair the item.

More information is available here
**www.electricalsafetyfirst.org.uk**



## Sut alla i amddiffyn fy hun rhag tanau trydanol sydd wedi eu hachosi gan Nwyddau Gwyn?

Fe ddylech chi bob amser ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a ddaeth gyda'r cyfarpar a deall sut i ddefnyddio a gofalu amdano'n gywir.

Cofrestrwch eich cyfarpar fel bod modd i'r gwneuthurwr gysylltu gyda chi os oes nam ar y cyfarpar neu os caiff ei alw'n ôl.

Gwnewch yn siŵr bod gennych larymau mwg sy'n gweithio a'ch bod yn gwybod beth i'w wneud mewn achos o dân. Ewch i wefan eich gwasanaeth tân ac achub lleol am ragor o wybodaeth.

## How can I protect myself from an electrical fire or fire caused by a White Goods appliance?

You should always follow the manufacturer's instructions provided when you buy the appliance and be fully aware of how to correctly use and maintain your appliance.

Register your appliance so that you can be made aware by the manufacturer of any defect or recall.

Make sure that you have working smoke alarms and know how to react in the event of a fire. Visit your local Fire and Rescue Service website for more information.

## Beth ddylwn i ei wneud os dof o hyd i nam gyda fy nghyfarpar?

Dilynwch y cyngor yn llawlyfr cyfarwyddiau'r gwneuthurwr, ewch i www.electricalsafetyfirst.org.uk neu cysylltwch â thrydanwr cymwys.

## What should I do if I find a fault with my appliance?

Follow the advice on your manufacturer's instruction booklet or on the www.electricalsafetyfirst.org.uk website, or contact a qualified electrician.



## Mae gen i larwm mwg felly rydw i'n ddiogel, dydw i?

Dydi cael larymau mwg gweithredol ddim yn golygu y gallwch beidio â dilyn cyngor y gwneuthurwr a defnyddio'ch cyfarpar yn gyfrifol.

**Mae larymau mwg gweithredol yn achub bywydau** – gwnewch yn siŵr bod gennych larymau mwg sydd wedi eu gosod yn gywir a phrofwch nhw'n rheolaidd, rydym ni'n argymell unwaith yr wythnos.

**Gwnewch yn siŵr bod gennych chi a'ch teulu arferion cyn mynd i'r gwely** i wneud eich cartref yn lle mwy diogel.

**Lluniwch gynllun dianc** ar gyfer eich teulu rhag ofn y bydd dân.

**Os bydd tân, ewch allan o'r adeilad mor gyflym â phosibl.** Fe all mwg fod yn wenwynig iawn yn enwedig os ydi'r tân yn ymwneud â chyfarpar trydanol. Fe all anadlu dim ond ychydig o fwg eich lladd.

**Peidiwch â mynd** yn ôl i mewn i'r tŷ i achub eiddo.

## If I've got a smoke alarm fitted, I'm safe, aren't I?

Working smoke alarms are not a substitute to ensuring that you follow manufacturer's advice and use your appliances responsibly.

**Working smoke alarms save lives** – make sure you have smoke alarms correctly fitted and that you test the alarms regularly, we recommend once a week.

**Make sure you and your family have a bedtime routine** that makes sure your home is safe.

**Have an escape plan** for your family in case a fire does occur.

**If a fire does occur, get out of the property as quickly as possible.** Smoke can be extremely toxic particularly where electrical appliances are involved and just a few breaths can be lethal.

**Don't go back** into the house to save possessions.